# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER 9 MEDI 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | A C S Colburn | A M Cook |
| J P Curtice | P Lloyd | K E Marsh |
| H M Morris | C L Philpott | T H Rees |

| **Swyddogion** | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| A Gruffydd | Cyfreithiwr |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| B Gilbert | Swyddog Trafnidiaeth |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorwyr: P Downing a V M Evans

42 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

43 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Awst 2016 yn gofnod cywir.

44 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 45 APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD I BEIDIO Â CHYMERADWYO GYRRWR AR GYFER CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL - PASG.

Rhoddodd y Swyddog Cludiant wybodaeth gefndir o ran PASG.

Nododd PASG yr amgylchiadau sy'n gefndir i'r euogfarnau ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** apêl PASG yn erbyn y penderfyniad i beidio â chymeradwyo fel gyrrwr ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd y pwyllgor yn credu y byddai PASG yn gallu cefnogi ei hun yn emosiynol mewn sefyllfaoedd anodd wrth gludo plant.

Roedd y pwyllgor hefyd o'r farn nad oedd y swyddog a wrthododd cymeradwyo cludiant o'r cartref i'r ysgol wedi defnyddio'r canllawiau a fabwysiadwyd ar gyfer trais fel rhan o bolisi cludiant ysgolion y cyngor yn anghywir.

## 46 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - BJH.

Rhoddwyd cefndir BJH gan y Swyddog Trwyddedu Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch.

Nododd BJH yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r euogfarnau ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** cais BJH i gael trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adran 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Defnyddiodd Aelodau eu harweiniad mabwysiedig sef rhaid cael o leiaf dair blynedd heb gollfarnau cyn ystyried cais.

47 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL - LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR DAU FATHODYN - SMW**

Rhoddwyd cefndir SMW gan y Swyddog Trwyddedu Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch.

Nododd SMW yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r euogfarnau ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** rhoi llythyr rhybuddio cryf i SMW ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

48 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU GYFYNGEDIG I GERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - TBC.**

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu Adrannol fod TBC wedi methu dod i'r cyfarfod ac ni dderbyniwyd cais am ohiriad er mwyn ystyried y mater.

Rhoddwyd cefndir TBC gan y Swyddog Trwyddedu Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch.

**PENDERFYNWYD:**

**a)** Y dylid ymdrin â'r mater yn absenoldeb TBC;
**b)** **GWRTHOD** cais TBC am drwydded yrru gyfyngedig i gerbyd hacni a hurio preifat o dan Adran 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Glynodd Aelodau wrth eu harweiniad mabwysiedig sef rhaid cael rhwng 3 a 5 mlynedd heb gollfarnau cyn ystyried dyfarnu cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.11 am

**CADEIRYDD**